K Liturgies. England Church of Part Services 3/2

FFURF

GWEDDI a DIOLCH

I

DDUW HOLLALLUOG,

Am ei fawr Drugaredd yn Rhagluniaethol Amddiffyniad y Brenin oddiwrth Gais yſgeler a bradychol yn erbyn Ei Ddyndid arbenig, ar *Ddydd Iau* y Pymthegfed o *Fai* 1800.

I'W HARFER

Yn y Boreöl a Phrydnawnol Waſanaeth,

Ar ol y Diolchgarwch Cyffredinol,

Yn mhob Eglwys a Chapel trwy *Loegr* a *Chymru*, a Thref *Berwig ar Twid*, gynted ag y derbynier gan Weinidogion y cyfryw; ac i'w parâu dros y Degarugain Dyddiau canlynol.

LLUNDAIN:

Argraffwyd gan GEORGE EYRE ac ANDREW STRAHAN, Argraffwyr i Ardderchocaf Fawrhydi y Brenin. 1800.

FFURF
GWEDDI a DIOLCH
I
DDUW HOLLALLUOG.

O Duw Hollalluog, yr hwn, drwy holl oesodd y Byd, a egluraist dy Allu a dy Ddaioni drwy dy Amddiffyniad Rhagluniaethol o Freninodd da a duwiol, yn llywio mewn Iawnder a Barn, ac yn addef ac yn derbyn dy lân a thragywyddol Wirionedd: Nyni, dy Weision annheilwng, Trigolion pechadurus y Tîr hwn, a ydym yn ymgrymu o dy flaen Di, gyda Mawl a Diolch, o herwydd yn drugarog deilyngu o honot luddio, y Pryd hyn mal ar Droion ereill, Amcanion ysgeler Dynion diobaith a gwaedlyd yn erbyn Dyndid arbenig Dy Wâs, ein Penllywydd.

Yr ydym yn cyfaddef mai trwy dy Drugaredd annhraethol, O Arglwydd, y bu na thorasid ef ymmaith am Bechodau y Wlâd. Parâa, nyni attolygwn i Ti, dy Ofal gwyliadwrus trosto. Bydd Di yn Amddiffyn ac yn Darian iddo, ac na âd i un Arf derchafedig yn ei erbyn lwyddo. Gwisga ei Elynion â Chywilydd, a soma eu Bradau. Diolchwn i Ti, O Arglwydd, gan itti glymu ynghyd Galonau y Wlâd hon yn gyfan,

megys

megys Calon un Dyn, er Amddiffyn ein Brenin, ein Cyfreithiau, ac ein Crefydd. Nertha a Chadarnâa ni, O Arglwydd, attolygwn i Ti, yn y Cydſyniad ac Undeb Cyſiawn a Chywir hyn. Hîr y blodeuo y Goron ar Ben dy Enneiniog, a llwydded dy Waith Di, ei Dduw, yn ei Ddwylaw. A phan fo dy Ewyllys bendigedig i'w alw i newid ei Deyrnas ddaiarol am Etifeddiaeth y Gogoniant nad yw byth i ddifläànu, caniatâa adel ei Deyrnwialen yn meddiant ei Blant, a Phlant ei Blant o Genedlaeth i Genedlaeth: Ac iddynt hwy, yn ymlunio ar ol ei Ddefod ef, yn wreſog o blaid dy Wirionedd, ac yn llywio wrth dy Gyfraith, gerdded yn Ngoleuni dy Wyneb yn dragywydd, hefyd, drwy dy Fendith Di, deyrnaſu mal yntau yn Nghalonau dy Bobl. Y Pethau hyn, yn oſtyngedig a erſyniwn, O Duw trugarog, i ein Penllywydd, i'w Dy Breninol, ac i'r Wlâd hon, yn Enw, a thrwy Gyfryngiad Ieſu Grîſt ein Harglwydd ac ein Hiachawdwr. *Amen.*

DIWEDD.